

## Tasg 3

(Heriol, sbardun 2)

### Gwaith llafar - Gwaith i grwpiau o dri neu bedwar

Mae un ohonoch chi'n gwneud cais am y gwaith hwn.

Gwnewch nodiadau i ddangos pam rydych chi'n meddwl eich bod chi'n addas ar gyfer y gwaith, e.e.

- pa fath o berson ydych chi – amyneddgar, brawychus ac ati.
- eich sgiliau – sgiliau gweithio'n annibynnol, sgiliau datrys problemau ac ati
- eich profiad chi o waith tebyg

Bydd rhaid i chi sôn am eich cefndir chi hefyd, e.e. ble rydych chi'n byw, addysg, diddordebau ac ati.

Mae tri ohonoch chi'n mynd i gyfweld y person sy'n ymgeisio am y swydd.

Paratowch gwestiynau da.

Gofynnwch am:

- gefndir y person, e.e. ble mae'n byw, addysg, diddordebau
- pa fath o berson yw e / hi
- sgiliau
- profiad o wneud gwaith tebyg
- pam mae'n meddwl ei fod / bod yn addas ar gyfer y gwaith
- pryd mae'n gallu dechrau.

Nawr, rhaid cyfweld y person.

### Gwaith llafar – Gwaith dosbarth

Rhaid i un aelod o bob panel cyfweld sôn am y person maen nhw wedi ei gyfweld.

Rhaid i bawb wrando'n ofalus a gofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol os oes angen.

Rhaid i bawb bleidleisio er mwyn penderfynu ar un person yn y dosbarth sy'n addas ar gyfer gwneud y gwaith hwn.